Cyngor Caerdydd • Cymunedau

# Tenants' Times

Rhifyn 46 | Gwanwyn 2019









**Oes Garddio Gwych yn eich gardd?** – Tudalen 1

**Eich Stori; Symud i Eiddo Llai** – Tudalen 5

**Diogelwch Trydanol** – Tudalen 7

CARDIFF
CAERDYDD

## Arian Am Eich Barn!

Diolch i bawb a lenwodd yr arolwg boddhad tenantiaid blynyddol oedd ynghlwm wrth y rhifyn olaf o Tenants Times.

Mae barn a sylwadau tenantiaid yn rhan bwysig o lywio'r ffordd yr ydym yn gwella ein gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym yn ceisio ymgysylltu â chymunedau lleol o hyd i sicrhau y gallwn gynnig y gwasanaethau gorau posibl i'n tenantiaid a'n lesddeiliaid.

Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr wnaeth lenwi'r arolwg ac ennill gwobrwyon ariannol hyd at £350!


- **1$^{af}$ Mrs H Henry**
- **2il Mr G Hegarty**
- **3ydd Mr A Polycarpou**

Os hoffech chi ennill yn y dyfodol, cofiwch gadw golwg am yr arolwg nesaf fydd yn cyrraedd carreg eich drws yn 2019! Edrychwn ymlaen at glywed gennych!



# Oes Garddio Gwych yn eich gardd?

Ydych chi'n ystyried eich hunan yn arddwr o fri, neu a hoffech chi ddysgu sut? Mae'n cystadleuaeth arddio flynyddol ar agor i gystadleuwyr ar gyfer 2019!





Mae gwobrau ariannol ar gael i'r rhai sy'n dod yn gyntaf, yn ail ac yn drydydd. Ymunwch heddiw! Cyhoeddir yr enillwyr yn ein Cynhadledd i Denantiaid ym mis Hydref. Dyma gyfle i chi gael cydnabyddiaeth haeddiannol am eich ymdrech!

**Wyddech chi?** Mae wedi cael ei brofi bod garddio yn lleihau straen, yn rhoi hwb i'ch imiwnedd yn ogystal â lleihau'r risg o ddementia wrth ichi heneiddio!

Mae gennym hefyd fanylion cyswllt nifer o erddi cymunedol ledled Caerdydd os nad oes llawer o ofod gennych. Beth am ddod lawr am gwpaned o de i weld a hoffech chi gymryd rhan?

Gallwch ofyn am ffurflen ymaelodi drwy ffonio ein swyddfa ar 029 2087 1777 neu anfonwch e-bost atom yn CyfranogiadTenantiaid@caerdydd.gov.uk ac fe wnawn ni anfon un atoch ynghyd ag amlen rhadbost i chi gael ei hanfon yn syth yn ôl.





Dawns Brenin a Brenhines y Calonnau



Heathmead's Healthy Lunch Event



# Dewch dros Ddydd Llun y Felan ac Ewch yn Syth i'r Ddawns!

Mae cynlluniau byw cymunedol ar hyd a lled Caerdydd wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd am hwyl a gemau gyda'u cymdogion a'u cymuned leol! Mae pob digwyddiad yn gyfle gwych i gwrdd â ffrindiau newydd a chael bwyd a gemau gyda'ch cymdogion.

**Dewch dros Ddydd Llun y Felan yng nghlwb cymdeithasol Homeguard Trelái!**

Doedd dim ffordd well o ddiosg gwe pry cop y Nadolig ac edrych ymlaen at 2019. Roedd 'na gemau bingo a hyd yn oed gydganu gyda chôr Goldies Cymru.

**Dawns Brenin a Brenhines y Calonnau.**

Gwisgodd y tenantiaid i fyny mewn gwyn, coch neu binc, a chael te swmpus a disgo! Buon nhw'n rhannu straeon wedyn am deulu a ffrindiau unwaith i'r disgo orffen.

**Cinio Iach Heathmead**

Digwyddiad i hybu bwyta'n iach gyda help dietegydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chafodd bawb gyfle i flasu rhywfaint!

Os ydych yn byw mewn cynllun byw cymunedol ac am gymryd rhan, siaradwch â rheolwr eich cynllun ynglŷn â digwyddiadau sydd ar ddod, neu ffoniwch Cyfranogiad Tenantiaid ar 029 2087 1777.



Clwb cymdeithasol Homeguard Trelái!

## Paratown ni'r popgorn!



Rydyn ni wedi rhentu ystafell sinema yn Butetown ar y dyddiadau canlynol. Dewch draw i wylio ffilm, a sgwrsio! Bydd y digwyddiadau o 10am tan 2pm yn cynnwys cinio!

**Sinema'r Haf**
27 Mehefin

**Sinema Calan Gaeaf**
31 Hydref

**Sinema Nadolig**
20 Rhagfyr

**Hyn a hyn o lefydd sydd ar gael.**

Bwciwch a chael rhagor o wybodaeth trwy ffonio Cyfranogiad Tenantiaid ar 02920871777 neu e-bostio cyfranogiad.tenantiaid@caerdydd.gov.uk.




# Ysbrydoli'r Ifanc

Ar 2 Chwefror, agorodd Pafiliwn Butetown ei ddrysau i'r gymuned leol drwy gynnal ffair yrfaoedd ar y thema 'Ysbrydoli'r Ifanc'.

*"Roedd yn braf iawn cael digwyddiad gwych gyda modelau rôl o'r un gymuned â mi all ein hysgogi, codi'n hwyliau a'n hannog ni"*

*"Roedd y digwyddiad yn ysbrydoledig iawn. Rwyf bellach yn ystyried ychydig o opsiynau gyrfa nad oeddwn wedi clywed amdanynt o'r blaen!"*

*"Pryd mae'r un nesaf? Cefais gwrdd â phobl cŵl iawn!"*



Roedd arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol lleol o dde Cymru'n cymryd rhan gyda stondinau a chyflwyniadau calonogol, â'r nod o ysbrydoli dyheadau mawr a thargedau cyraeddadwy ar gyfer cenhedlaeth nesaf ceiswyr swyddi yn ne Caerdydd.

Roedd arbenigwyr o ddiwydiannau megis Meddyginiaeth, Fferylliaeth, Peirianneg Cemegol, TGCh, Seiber-Ddiogelwch, Adeiladu, Pensaernïaeth, Gwyddoniaeth Labordy a Pheirianneg Sifil ar gael i roi cyngor, trefnu lleoedd i bobl ar ddiwrnodau rhagflas, ynghyd â chynnig cyfleoedd swydd, prentisiaethau, diwrnodau cysgodi a phrofiad gwaith cyffredinol i ymgeiswyr addas.

Ar ôl y ffair swyddi, roedd dau weithdy ar wahân yn cyflwyno siaradwyr ar banel rhieni a phanel ieuenctid gyda chynrychiolwyr o brifysgolion, colegau ac ysgolion lleol.

# Ystyried Maethu?
## Ystyriwch Gyngor Caerdydd!

**Rydym yn chwilio am Ofalwyr Maeth mor amrywiol a bywiog â phlant a phobl ifanc Caerdydd!**

### Alla i faethu?

**Ydych chi:**

- Yn frwd dros wella bywydau pobl ifanc Caerdydd?
- Eisiau ennill incwm ychwanegol neu'n ystyried newid gyrfa?
- Yn gallu cynnig gofal, arweiniad a chymorth i bobl ifanc Caerdydd?

**Gallwch chi faethu!**

**Rydym yn cynnig...**

- Ffioedd cystadleuol a lwfansau hael a ddiweddarwyd yn ddiweddar
- Taliadau ychwanegol am wyliau, gwyliau crefyddol a phenblwyddi
- 54 wythnos o dâl y flwyddyn
- Mynediad i ofalwyr seibiant cymwys i'ch galluogi i orffwys ac adfer
- Cyfleoedd Dysgu a Datblygu Proffesiynol gyda chymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol
- Cymorth Arbenigol – gan gynnwys eich Gweithiwr Cymorth cymwys eich hun
- Fel Sefydliad Di-elw, mae 100 % o'n cyllideb yn mynd at wella bywydau plant a phobl ifanc.



**Dewch i ymuno â'n tîm!**
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'n tîm proffesiynol cyfeillgar ar **029 2087 3797.** Mae ein tîm ar gael rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 9am a 4.30pm ar ddydd Gwener. **www.gofalmaethcaerdydd.co.uk**

Gofal Cyngor Caerdydd Maethu plentyn

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD



# Eich Stori; Symud i Eiddo Llai

Roeddwn yn arfer byw ar y seithfed llawr mewn bloc fflatiau uchel. Bu farw fy nghefnder, a'm ffrind gorau, un yr oeddwn wedi byw gydag ef ers 20 mlynedd, ac roedd y fflat yn rhy fawr i mi allu ei reoli ar fy mhen fy hun.

Roedd popeth yn y fflat yn f'atgoffa i o fy nghefnder, felly penderfynais ei bod hi'n amser newid. Roedd angen lle llai arnaf, y byddwn yn gallu ei reoli, ar y llawr gwaelod.

Pan gefais gynnig o eiddo, daeth Swyddog Datrysiadau Llety â'r llythyr o gynnig i mi yn bersonol, ac ateb bob cwestiwn oedd gennyf. Eglurodd yn union beth oedd y camau nesaf, gan fy helpu i oresgyn ychydig o rwystrau oedd yn f'atal rhag symud. Roedd bod â chefnogaeth y tîm Datrysiadau Llety yn rhyddhad mawr, oherwydd roeddwn yn ymwybodol o'r camau nesaf yn y broses bob tro ac roeddent wastad ar gael dros y ffôn os oedd angen unrhyw beth arna' i. Roedd y Swyddog Datrysiadau Llety gyda fi ar bob cam o'r ffordd, o drafod y llythyr o gynnig, bod yna yn ystod ymweld â'r eiddo ac at y diwedd un pan drefnodd y trydan/nwy/dŵr yn fy nghyfeiriad newydd. Rhoddodd hyn lawer iawn o hyder i mi fy mod i'n gwneud y penderfyniad iawn, oherwydd roedd wastad wyneb cyfeillgar yno y gallwn ddibynnu arno.

Ers symud, rwy'n hapus iawn yn fy lle newydd. Doedd dim straen gyda'r symud, ac ar ôl i mi setlo, sicrhaodd y Swyddog Datrysiadau Llety bod unrhyw faterion yn cael eu datrys, gofalodd am yr holl bethau bach a allai beri straen megis rhoi gwybod i fy mhensiwn, fy yswiriant, y banc, budd-daliadau a'r cwmni nwy/trydan/dŵr. Rwy'n teimlo fel fy mod wedi cael f'annibyniaeth yn ôl, ac ni allaf ddiolch digon i'r tîm Datrysiadau Llety, 'dw i ddim yn gwybod pam na wnes i hyn yn gynt! Roeddent oll yn gyfeillgar iawn, yn barod i helpu ac mae croeso iddyn nhw ddod acw unrhyw bryd am baned.

**Cysylltwch Â Ni**

Mae'r Tim Atebion Llety ar gael o dydd Llun i ddydd Iau 8.30- 17.00 a dydd Gwener 8.30- 16.30 ar:

Ffon 029 2053 7111
E-bost
SLUAccommodationSolutions@caerdydd.gov.uk

# Cyflwyniad i'n Tîm Cynhaliaeth Tenantiaeth

Sefydlwyd y Tîm Cynhaliaeth Tenantiaeth yn ddiweddar i helpu pobl sydd o bosib yn cael trafferth deall eu cyfrifoldebau fel tenant, a'u cefnogi wrth iddyn nhw gynnal eu tenantiaethau.

Rydym yn cydnabod bod llawer o'n tenantiaid yn profi trafferthion personol a chymunedol a gall hyn effeithio ar eu gallu i gynnal eu tenantiaethau. Mae'r Tîm Cynhaliaeth Tenantiaeth yma i weithio'n agos gyda'r tenantiaid hynny, i edrych ar ba faterion allai fod yn effeithio ar eu tenantiaeth, a'u helpu i gyrchu gwasanaethau i wella eu bywydau, a'u gallu i reoli eu tenantiaeth yn llwyddiannus. Rydym am helpu i wella diogelwch, y synnwyr o gymuned a llesiant, er mwyn gwella bywydau unigolion a chymunedau.

Bydd y Tîm Cynhaliaeth Tenantiaeth yn gweithio'n agos gyda'r Timau Rheoli Tenantiaeth ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, i adnabod y tenantiaid sydd â'r perygl mwyaf o fethu yn eu tenantiaeth. Rydym yn edrych i ymyrryd yn gynnar, i gefnogi'r rhai hynny sydd yn y perygl mwyaf cyn i faterion tenantiaeth waethygu.

Byddan nhw'n cydweithio gyda thenantiaid sy'n teimlo'n ynysig ac unig, er mwyn cysylltu gyda mudiadau cymunedol a gwirfoddol; i ymgysylltu gyda gweithgareddau cymunedol, a hefyd i'w cefnogi yn eu hymwneud â'r gwasanaethau iechyd gwahanol, i enwi dim ond rhai.

Byddwn ni'n gwneud gwaith allgymorth yng nghartrefi tenantiaid ond byddwn ni hefyd yn gweithredu o'r Hybiau lleol cymunedol. Os ydych chi, neu denant yr ydych yn ei nabod, yn cael trafferth cynnal eu cartref, neu angen help gyda'u hiechyd neu fater arall, ffoniwch ni ar 029 2053 7271, neu e-bostiwch cynhaliaeth.tenantiaeth@caerdydd.gov.uk






## Canrif o dai cyngor


Mae eleni yn ganrif ers cyflwyno tai cyngor yn dilyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Wedi'r rhyfel, cyflwynwyd Deddf Addison er mwyn adeiladu tai cyngor '**addas i arwyr**' i'r milwyr a oedd yn dychwelyd adref o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Cadwch olwg am y gyfres o ddigwyddiadau y byddwn ni yng Nghyngor Caerdydd yn eu cynnal trwy'r ddinas i ddathlu!

Os hoffech chi gynnal digwyddiad yn eich cymuned i ddathlu canmlwyddiant tai cyngor neu os hoffech rannu profiad o'ch amser yn byw fel tenant y cyngor, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid trwy ein ffonio ar 02920871777 neu anfon e-bost i cyfranogiadtenantiaid@caerdydd.gov.uk

# Diogelwch Trydanol mewn Tai Cyngor

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnal profion arferol o offer Nwy a Thrydan i sicrhau diogelwch ei denantiaid a'i lesddeiliaid.







**Dyma ychydig o fanylion defnyddiol:**

- Mae uned Gwasanaeth Cynnal a Chadw Ymatebol Cyngor Caerdydd yn rhoi rhaglen o brofion Cyflwr Gosod Offer Trydanol ar waith yn nifer o'i eiddo dros y misoedd nesaf.
- Bydd hefyd gwiriadau Diogelwch Nwy i sicrhau perfformiad diogel pob system gwres yn ein heiddo. Yn ôl y gyfraith, mae angen i ni archwilio a gwasanaethu pob offeryn yn flynyddol.

Bydd Trydanwyr Cymeradwy a Chymwys a gweithredwyr a chontractwyr â thystysgrif Diogelwch Nwy yn cynnal pob prawf ond cofiwch; bydd Gweithredwyr a Chontractwyr y Cyngor yn cario cerdyn adnabod bob tro, ac mae'n rhaid iddynt ei gyflwyno os byddwch yn gofyn.

Efallai y bydd ar rai profion angen gwaith adferol ychwanegol a **bydd methu â rhoi mynediad yn arwain at y contractwr yn rhoi gwybod i ni, a gallai hynny arwain at gamau cyfreithiol.**

Dyma'r Contractwyr a'r ardaloedd y byddant yn cynnal profion trydanol:

Bydd Wates Construction yn gweithio yn yr ardaloedd canlynol yn ystod y misoedd nesaf.



- Pen-y-lan, Creigiau, Radur a Phentre-poeth, Cathays, Treganna, Pentyrch, Adamsdown, Plasnewydd, Glan-yr-afon, Grangetown, Caerau, Butetown, Sblot, Y Tyllgoed, Trelái

Bydd Starlight Electrical yn gweithio yn yr ardaloedd canlynol dros yr un cyfnod.

- Llandaf, Llys-faen, Rhiwbeina, Pontprennau a Llaneirwg, Y Mynydd Bychan, Gabalfa, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, Tredelerch, Ystum Taf, Llanisien, Trowbridge, Pentwyn, Llanrhymni

Bydd LCB Construction yn gweithio mewn byngalos, tai gwarchod a fflatiau yn yr ardaloedd canlynol.

- Fflatiau Lydstep, Radur a Phentre-poeth, Llanrhymni, Pentyrch, Llanisien, Y Mynydd Bychan, Trelái, Y Tyllgoed, Caerau, Yr Eglwys Newydd, Grangetown.

Ar gyfer profion Diogelwch Nwy, os ydych yn defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw neu fesurydd talu â thocyn, **sicrhewch fod gennych ddigon o gredyd i alluogi'r gwiriad Diogelwch Nwy**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am brofion Trydanol neu wiriadau diogelwch Nwy, mae croeso i chi gysylltu â C2C ar 029 2087 2088 neu ewch ar y wefan https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Tai/Byw-yn-eiddor-cyngor/Cyflwr-Gosodiadau-Trydanol/Pages/default.aspx



# Yswiriant Cynnwys y Cartref wedi'i Ddylunio ar gyfer Tenantiaid Caerdydd

**Dyma rai o'r prif fanteision:**

- Mae'n cynnwys tân, lladrad, llifogydd, niwed dŵr a risgiau eraill y cartref
- Premiymau wythnosol fforddiadwy ac opsiynau talu hyblyg
- Dim gordal i'w dalu
- Dim lleiafswm o ran gofynion diogelwch y cartref
- Mae yswiriant niwed damweiniol manylach ar gael am bremiwm ychwanegol
- Os oes gennych ddiogell allweddi neu ofalwr, rydych yn dal yn gymwys i ymgeisio ar gyfer y cynllun

Mae'r premiymau'n dechrau o 52c yr wythnos am yswiriant safonol (ar gyfer tenantiaid dan 25 oed neu dros 60, am yswiriant werth £6,000).

Mae'r premiymau'n dechrau o 69c yr wythnos am yswiriant safonol ar gyfer pob tenant arall, am yswiriant werth £8,000.

I gael rhagor o wybodaeth neu i ofyn am becyn ymgeisio, cysylltwch â Chyngor Caerdydd ar 029 2053 7382.

Terfynau a gwaharddiadau'n berthnasol.

Mae geiriad polisi llawn ar gael ar gais.

Tanysgrifennwyd gan Aviva Insurance Ltd.




## Ydych chi wedi'i ddarllen? Cymerwch ran yn ein raffl!


Atebwch y tri chwestiwn yn gywir i gymryd rhan yn ein raffl i ennill £30 o dalebion siopa o'ch dewis chi!

1. Faint o gategorïau sydd ar gael i denantiaid a lesddeiliaid y Cyngor gymryd rhan yn ein cystadleuaeth Garddio Gwych?
2. Ar ba ddyddiad wnaeth Pafiliwn Butetown gynnal y ffair swyddi?
3. Beth yw rhif ffôn y tîm Cynaliadwyedd Tenantiaid newydd?

E-bostiwch eich ceisiadau i CyfranogiadTenantiaid@caerdydd.gov.uk neu bostiwch nhw at RHADBOST CYNGOR CAERDYDD CYFRANOGIAD TENANTIAID i fod â chyfle i ennill y wobr! I gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni ar 029 2087 1777. Y dyddiad cau i gyflwyno eich cais ar gyfer y gystadleuaeth yw **31 Gorffennaf 2019**.

# Canmlwyddiant Tai Cyngor. Adroddwch eich hanesion!

Mae eleni ganrif ers cychwyn tai cyngor yn y DU. Rydyn ni am gynnal cyfres o ddigwyddiadau eleni i ddathlu'r holl bethau hyfryd mae tenantiaid y Cyngor wedi eu gwneud yn eu cartrefi a'u cymunedau.



Amser Tynnu Llun! Beth am ddathlu 100 mlynedd o dai cyngor yn y DG drwy liwio'r tŷ hwn?

Rydyn ni'n cynnig gwerth £100 o docynnau rhodd siopau ar gyfer y stori orau sy'n disgrifio amser yn byw mewn tŷ cyngor neu gymuned tai cyngor neu o atgof o'r cyfnod hwnnw!

Gall hyn fod yn unrhyw beth, yn ddigwyddiad yn eich cymuned, rhywbeth digrif yn digwydd gartref neu ddisgrifiad o'r lle rydych chi'n byw.

Dim mwy na 500 gair!

**Bydd y gystadleuaeth yn cau ar 31 Gorffennaf.**

**Caiff yr enillydd docyn rhodd gwerth £100!**

E-bostiwch eich ymgeision i Cyfranogiadtenantiaid@caerdydd.gov.uk neu anfonwch nhw trwy'r post i

**RHADBOST: CYFRANOGIAD TENANTIAID CYNGOR CAERDYDD** i gael cyfle i ennill y wobr! Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni ar 029 20871777.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed eich atgofion tai cyngor!